# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

**<u>Aelodau’n bresennol:</u>** **<u>Dydd Mawrth, 14 Rhagfyr 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, S.Renkes a/ac R.L.Taylor |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod C.James (Briton Ferry East) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, S.Ball, M.Shaw, J.Griffiths, R.Borthwick, S.Jenkins a/ac T.Davies |

---

1. **<u>CROESO A GALW’R RHESTR</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd D Keogh | Parthed: Cais Cynllunio Rhif P2021/1090, gan ei fod yn adnabod yr Ymgeisydd yn bersonol. Roedd o'r farn bod ei ddiddordeb yn niweidiol felly tynnodd yn ôl o'r cyfarfod, ac ni chymerodd ran yn unrhyw ran o'r drafodaeth na'r pleidleisio. |

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

5. **CAIS RHIF. P2021/1056 - INNOVATIVE CARE LTD, 282 HEOL CASTELL-NEDD, LLANSAWEL, CASTELL-NEDD.**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (newid defnydd gwesty (C1) i gartref gofal preswyl (C2) yn 282 Heol Castell-nedd, Llansawel, Castell-nedd), fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd gwall teipograffyddol yn yr adroddiad – dyddiad hysbysebu'r cais ar y safle oedd 29 Hydref ac nid 29 Medi 2021.

Roedd yr Aelod lleol yn bresennol i roi ei sylwadau, ynghyd â siaradwr cofrestredig, ac arferodd asiant yr ymgeisydd ei hawl i ymateb.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2021/1056 yn unol ag argymhellion Swyddogion, ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **AMENDMENT SHEET**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif P2021/1090 cyn y cyfarfod, yr oedd Cadeirydd wedi rhoi amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddi gael ei dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw am y rhesymau a'r amgylchiadau arbennig canlynol: nid oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac roedd am sicrhau bod aelodau’n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

7. **CAIS RHIF. P2021/1090 - MR GARY DOYLE, 3, CLOS DEWI SANT, BRYN SA13 2RZ**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (Cadw'r annedd ar wahân bresennol a'r fynedfa, y lle parcio, yr adeileddau cynnal a'r grisiau cysylltiedig, ynghyd â sgrinio arfaethedig i'r ffiniau ochr a llwyfan uchel yn 3, Clos Dewi Sant, Bryn SA13 2RZ), fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddodd siaradwr cofrestredig ei sylwadau, ac arferodd asiant yr ymgeiswyr ei hawl i ymateb.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2021/1090 yn unol ag argymhellion Swyddogion, ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. **APELIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT - 8 RHAGFYR 2020 - 6 RHAGFYR 2021**

Ar y pwynt hwn, dychwelodd y Cynghorydd D Keogh i'r cyfarfod.

Derbyniodd yr Aelodau restr o Benderfyniadau Apêl y penderfynwyd arnynt rhwng 8 Rhagfyr 2020 a 6 Rhagfyr 2021, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.   Roedd yr Aelodau wedi derbyn copïau o'r penderfyniadau hyn drwy e-bost, ond nid oeddent wedi cael eu hadrodd eto yn y Pwyllgor Cynllunio.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **APELIADAU A DDERBYNIWYD - 8 RHAGFYR 2020 - 6 RHAGFYR 2021**

Nododd yr Aelodau y rhestr o Apeliadau a Dderbyniwyd rhwng 8 Rhagfyr 2020 a 6 Rhagfyr 2021.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

10. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 8 RHAGFYR 2020 - 6 RHAGFYR 2021**

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 8 Rhagfyr 2020 a 6 Rhagfyr 2021, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

11. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**